

Dydw i DDIM wedi defnyddio AI

Rhan 1-

Gweithgaredd 10 munud sydd yn hybu amlieithog yn y flynyddoedd cynnar:

Yn y fideo yma, rydw i wedi dewis gwneud gweithgaredd carped, sy'n cynnwys caneuon dyddiau'r wythnos, misoedd y flwyddyn a'r cân 5 crocodeil trwy cyfrwng y Gymraeg (Cam D/E).

[Gweithgaredd 10 munud.MOV](#)

Rhan 2-

Yn ôl Aronin (2018), amlieithrwydd yw'r defnydd o dair iaith, neu fwy. Yn debyg i hyn, dwyieithrwydd yw'r defnydd o ddwy iaith. Caiff dwyieithrwydd ac amlieithog ei ddiffinio mewn sawl ffordd, yn dibynu ar y cyd-destun (Grosjean F, 2013). Yn cefnogi hyn, dywed Baker (2000), bod y derm 'ddwyieithog' fel arfer yn neilltuedig i ddisgrifio dwy iaith o fewn unigolyn.

Yn y papur yma, byddaf yn trafod y buddion o fod yn ddwyieithog (neu amlieithog), Cymraeg fel iaith ychwanegol, datblygiad yr ymenydd wrth caffael iaith newyd fel plentyn, meddwl dargyfeiriol a'r fframweithiau a rhaglenni sydd ar gael er mwyn hybu dwy/amlieithrwydd.

O fewn Ewrop yn unig, mae dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad mwy na ddwy iaith. Caiff yr iaith cartrefol ei ddygu'n gyntaf ac yna bydd ail iaith yn cael ei cyflwyno o fewn y flynyddoedd cynnar mewn sawl gwlad. Gyda hyn, mae sawl budd yn dod.

Un o'r buddion o fod yn ddwyieithog neu amlieithog yw'r gallu i gyfathrebu gyda mwy o bobl ar draws y byd. Mae hwn yn galluogi pobl i deithio o gwmpas y byd yn fwy hyderus gan ei fod yn gallu cyfathrebu a siarad iaith gwlad heb orffod poeni am rhwystrau iaith. Yn ôl Baker (2000), mae hwn hefyd yn galluogi pobl i feithrin perthnasoedd rhwng diwylliannau gwahanol.

Budd arall o fod yn ddwy/amlieithog fel plentyn, yw fod mwy o fynediad at gyrfaoedd yn y dyfodol. Mewn gwleydd fel Cymru, mae swyddi yn hysbysebu fod Cymraeg naill yn hanfodol, neu'n ddymunol. Bydd person sydd wedi tyfu lan yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o gael swydd am hyn. Mewn rhai gyrfaoedd fel addysg, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn agor sawl drws gwahanol, gan fod ysgolion Cymraeg ar gael. Heb yr iaith, bydd cael swydd a gweithio mewn ysgol Cymraeg yn waith caled.

Cymraeg fel iaith ychwanegol yw lle mae plentyn yn rhugl mewn yn iaith, a bod y Gymraeg yn ail iaith iddynt. Gall hwn meddwl bod y plentyn yn mynychu addysg Cymraeg, ond yn siarad iaith gwahanol yn y cartref. Yn ôl Ofsted (2013), mae Saesneg fel iaith ychwanegol yn cyfeirio at ddysgwyr nad Saesneg yw eu iaith cyntaf. Yn ôl sensws 2021, mae 17.8% o bobl Cymru, o dair mlwydd oed a hun, yn gallu siarad Cymraeg yng Nghymru (Comisiynydd y Gymraeg, 2021).

Mae plant sydd yn dysgu Cymraeg fel iaith ychwanegol, yn dysgu'r iaith maent yn cymdeithasu ynddo'n gyntaf. Bydd hwn yn galluogi nhw i gyfathrebu gyda cyfoedion a ffrindiau. I'r plant sydd yn dysgu Cymraeg fel iaith ychanegol, ond yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol hefyd, bydden nhw'n debygol o ddysgu Saesneg cyn Cymraeg oherwydd dyna'r iaith sydd yn cael ei siarad ymys ffrindiau tu fas i'r dosbarth ac ysgol.

O fewn caffael iaith newydd, mae 5 cam, sydd yn mynd o A-E. Cam A yw, newydd i'r iaith. Ar y cam yma, dyw plant ddim yn deall yr iaith newydd o gwbl, a maent yn dawel ac yn cymryd popeth i mewn. Yng ngham B, dyma lle mae'r caffaeliaid cyntaf yn digwydd. Mae plant yn gallu dilyn cyfarwyddiadau syml a fyr. Cam C yw lle mae plant yn datblygu cymhwysedd rhwng y ddwy (neu fwy) iaith. Erbyn cam D, mae plentyn yn gymwys yn yr iaith, sydd yn meddwl bod dealltwriaeth a chaffaeliad da yn yr iaith, ond mae dal camsyniadau gramadeg. Yna cam E, yw rhugl yn yr iaith. Mae hyn yn meddwl bod braidd dim camsyniadau gramadegol pan fydd y plentyn yn siarad ac maen nhw'n gallu siarad yn glir heb feddwl am geiriau. (Hwb, dim dyddiad).

Pan fydd rhywun yn gofyn cwestiwn i blentyn, mae angen 6 eiliad arnynt i ymateb. Yn ystod y chwech eiliad yma, mae gwybodaeth yn mynd o un lle yn yr ymenydd i'r llall. Dechreuwa gwybodaeth yn y cortecs clywedol. Fan hyn yw lle mae gwybodaeth yn brosesu'n glywedol. O fan hyn, mae'r gwybodaeth yn cael ei trosglwyddo at ardal Wernicke, lle mae cynhyrchiad a phrosesu iaith yn digwydd. Yn ôl Hofman (2020), mae gan pobl dwyiethog/amlieithog cynydd cysylltedd yn rhan yma'r ymenydd.

O'r ardal Wernicke, mae'r gwybodaeth yn mynd at rhan Broca. Dyma ble mae'r cyhyrau llefaredd. Yr ardal yma o'r ymenydd sydd yn gyfrifol am rheolaeth cynhyrchiad lleferydd. Wrth cymharu gyda pobl unieithog, mae mwy o fater llwyd yn yr ardal yma gyda pobl dwyiethog (neu amlieithog). Ar ôl i wybodaeth mynd at rhan Broca, mae'n mynd at y cortecs echddygol. Yn rhan yma'r ymenydd, mae'r cynhyrchiad o'r ail iaith yn gysylltiedig a mwy o weithgaredd yn y cortecs echddygol. Mae'r rhan yma'r ymenydd yn helpu cynhyrchiad llefaredd a chanfyddiad lleraredd hefyd.

Pan fydd plentyn yn siarad ail iaith, mae'r iaith cyntaf yn cael ei hanwybyddu (Thomas, 2018). Bydd plant yn dueddu o wahaniaethu dwy iaith ac yn newid o un i'r llall yn dibynu ar pwy maent yn siarad gyda.

Meddwl dargyfeiriol yw'r gallu i darganfod syniadau creadigol trwy ymchwilio mewn i sawl ateb posib. Mae meddwl dargyfeiriol yn defnyddio'r ochr chwith a dde'r ymenydd. Gall y meddwl yma fod yn rydd, llai ffurfiol a mwy digymell. Mae'r meddwl yma hefyd yn cefnogi a hybu meddwl tu fas i'r bocs (How We Montessori, 2020).

Mae'r meddwl yma llawer fwy cyffredin ymlith plant ifancaf. Wrth i blant tyfu lan, a mynychu ysgol, maent yn gwario llai o amser yn chwarae, a mwy o amser yn eistedd tu ôl i ddesg yn dysgu o fewn y dosbarth. Mae sawl arbrawf wedi cael ei cynnal, a maen nhw i gyd yn dod i'r un casgliad, sef bod mwy o feddwl dargyfeiriol gan plant 5 oed, sydd yn sgori'n uchel yn y profion, ac yna mae'r canran o blant sydd yn pasio'r un prawf pan maent yn henach an lleihau llawer.

Er mwyn hybu dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, mae gan gwledydd gwahanol, deddfwriaethau, polisiau, fframweithiau a rhaglenni sydd yn hybu amlieithrwydd, enwedig mewn gwledydd sydd yn cael iaith sydd yn llai cyffredin, fel Cymru a'r iaith Cymraeg. Mae gan Cymru targed i gael milwin o siaradwyr Cymraeg yn y gwlad erbyn 2025. Bwriad hwn yw i gadw'r iaith yn fyw ac i osgoi'r iaith rhag marw. Cafodd y deddfwriaeth yma ei sefydlu ar ôl sensws 2011 ar ôl y bumthegfed flwyddyn o'r deddf cyntaf iaith Cymraeg 1967 (Llywodraeth Cymru, 2017). Bwriad y deddfwriaeth yma yw i gael milwin o bobl yng Nghymru i siarad Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

Fframwaith arall sydd mewn lle er mwyn hybu pobl i fod yn dwyieithog yng Nghymru ac i siarad Cymraeg yw Safonau'r iaith Gymraeg. Mae'r safonau yma yn hybu'r Cymraeg ac yn sicrhau bod yr iaith Cymraeg yn cael ei thrin yr un mor bwysig na'r Saesneg yng Nghymru. Hefyd, mae'r safonau yma yn ddyletswyddau sydd yn cael ei sefydlu gan Comisiynydd Cymru, er mwyn defnyddio'r iaith Cymraeg mewn pump maes gwahanol. Y meysydd yma yw; Cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu, hybu a chadw cofnodion (Comisiynydd y Gymraeg, dim dyddiad).

Yn seiliedig ar y ddeddfwriaethau yma, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn helpu hybu'r iaith trwy sicrhau bod safonau yn lle, a bod y cwricwlwm newydd yn hybu'r Cymraeg yn fwy na'r cwricwlwm arall. Bwriad y fframwaith yma yw i sicrhau bod un continwum ar gyferaddysgu a dysgu Cymraeg. Mae'r fframwaith yma hefyd yn canolbwyntio ar deall yr iaith Cymraeg a sut i'w ddefnyddio ar gyfer cyfathrebu. Hefyd, mae'r cwricwlwm yma'n lleihau'r canolbwyntiad ar sgiliau ysgrifennu a darllen yn y Gymraeg. Er mwyn i'r cwricwlwm yma gweithio'n llwyddiannus, mae angen

buddsoddiad pellach mewn hyfforddiant athrawon er mwyn iddynt gallu addysgu'r cwricwlwm yn hyderus ac yn gywir. Heb yr hyfforddiant hanfodol, ni fydd addysgu'n ogystal neu'n well na beth oedd o'r blaen a ni fydd pethau'n gwella.

Yn fras, dwyieithrwydd yw'r defnydd o ddwy iaith, er gall y ddiffiniad yma newid yn dibynnu ar y gyd-destun. Mae yna sawl buddion gwahanol ynlgyn a fod yn ddwyieithog neu'n amlieithog, gan gynnwys buddion niwrolegol a gwybodol. Mae gan bobl dwyieithog mwy o fater lwyd yn yr ymenydd wrth cymharu a pherson gyda un iaith. Mae pawb yn colli'r gallu i feddwl yn dargyfeiriol wrth iddynt tyfu lan. Mae'r iaith Gymraeg yn llai poblogaidd yng Nghymru, a mae yna sawl deddfwriaeth, polisïau, fframweithiau a rhaglenni mewn lle er mwyn hybu'r iaith ym mhobman.

Ar gyfer y dyfodol, mae angen mwy o bwyslais ar yr iaith Gymraeg, a ffyrf o newid hyn, fel bod yr iaith ddim yn unig yn cael ei hybu mewn ysgolion ac yn y flynyddoedd cynnar. Mae angen mwy o amrywiaeth a ffyrf gwahanol er mwyn pwysleisio oedolion i ddysgu'r iaith.

Rhestr Cyfeirnod:

Aronin, L (2018), Lecture 1: What is Multilingualism?. In: Singleton, D. and Aronin, L. ed. *Twelve Lectures on Multilingualism*. Bristol, Blue Ridge Summit: Multilingual Matters, td. 3-34. <https://doi.org/10.21832/9781788922074-003> (Wedi darllen 27 Mawrth 2025).

Baker C (2000), *The Care and Education of Young Bilinguals: An Introduction for Professionals*, td. 3. Lloegr, Cambrian Printers Ltd. (Wedi darllen 27 Mawrth 2025).

Baker C (2000), *The Care and Education of Young Bilinguals: An Introduction for Professionals*, td. 13. Lloegr, Cambrian Printers Ltd.(Wedi darllen 30 Mawrth 2025).

Comisiynydd y Gymraeg (2021), 2021 Census, Ar gael ar:
<https://www.welshlanguagecommissioner.wales/policy-and-research/the-position-of-the-welsh-language/2021-census#:~:text=The%202021%20Census%20results%20show,has%20been%20decreasing%20since%202001>. (Wedi darllen 30 Mawrth 2025).

Comisiynydd Y Gymraeg (dim dyddiad), Safonau'r Gymraeg. Ar gael ar:
<https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/rheoleiddio/safonau-gymraeg> (Wedi darllen 30 Mawrth 2025).

Grosjean, F a Li, P (2013) *The Psycholinguistics of Bilingualism*. Sussex: Blackwell Publishing (Wedi darllen 27 Mawrth 2025).

Hofman, C.(2020) A literature review examining the effects of bilingualism in individuals who stutter,
<https://digitalcommons.murraystate.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1034&context=honorstheses> (Wedi darllen 30 Mawrth 2025).

How We Montessori (2020), What is Convergent & Divergent Thinking? – Do we need more Divergent Play & Thinking at home? Ar gael ar:
<https://www.howwemontessori.com/how-we-montessori/2020/08/what-is-convergent-and-divergent-thinking-do-we-need-more-divergent-play-and-thinking-at-home.html> (Wedi darllen 30 Mawrth 2025).

Hwb (dim dyddiad), 5 Stage Model Of English As An Additional Language Acquisition, <https://hwb.gov.wales/api/storage/cefd3a14-bdf9-4db1-a8de-ed00199173b8/AnnexA5stagemodeloflanguageacquisition.pdf> (Wedi darllen 30 Mawrth 2025).

Llywodraeth Cymru (2017), Cymraeg 2050 A Million Welsh Speakers, Ar gael ar:
<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-welsh-language-strategy.pdf> (Wedi darllen 30 Mawrth 2025).

Ofsted (2013), *English as an additional language A briefing paper for section 5 inspectors*, <http://www.naldic.org.uk/eal-teaching-and-learning/outline-guidance/eal-ofsted/> (Wedi darllen 29 Mawrth 2025).